Mae'r canllaw hwn yn dweud wrthych beth fydd yn digwydd os cewch eich stopio gan yr heddlu.

I gael rhagor o wybodaeth fanwl, gan gynnwys diffiniadau cyfreithiol, cyfieithiadau i ieithoedd amgen a fformatau gwahanol ewch i www.apa.police.uk neu cysylltwch â'ch awdurdod heddlu lleol.

Beth yw 'stopio a rhoi cyfrif'?

'Stopio a rhoi cyfrif' yw pan fydd swyddog yn eich stopio ac yn gofyn y canlynol i chi:

- beth rydych yn ei wneud;
- pam eich bod mewn ardal neu i ble rydych yn mynd; neu
- beth rydych yn ei gario.

Nid oes gan swyddog yr heddlu na swyddog cymorth cymunedol yr heddlu y pŵer i'ch gorfodi i aros gyda nhw os cewch eich stopio a'ch holi am yr hyn rydych yn ei wneud.

Pwy all 'stopio a rhoi cyfrif'?

- Swyddog yr heddlu; neu
- swyddog cymorth cymunedol yr heddlu.

Rhaid bod swyddog cymorth cymunedol yr heddlu yn gwisgo lifrai, ond nid felly swyddog yr heddlu. Rhaid iddo ddangos ei gerdyn adnabod i chi os nad yw'n gwisgo lifrai.

Yr hyn a gofnodir a'ch hawl i gael derbynneb

Os cewch eich stopio bydd y swyddog ond yn cofnodi eich ethnigrwydd a chewch dderbynneb sy'n dangos y dyddiad a'r amser y cawsoch eich stopio, ac enw a manylion y swyddog.

Beth yw 'stopio a chwilio'?

Gallwch gael eich stopio a'ch chwilio pan fydd gan swyddog sail resymol i amau eich bod yn cario:

- cyffuriau, arfau neu eiddo wedi'i ddwyn; neu
- eitemau y gellid eu defnyddio igyflawni trosedd.

Weithiau gall swyddogion eich stopio a'ch chwilio mewn ardal benodol heb unrhyw sail resymol os credir:

- y gallai trais difrifol gael ei gyflawni, neu os oes arfau ymosodol yn cael eu cario neu eu bod wedi cael eu defnyddio; neu
- y nodwyd bygythiad terfysgaeth.

Rhaid i'r swyddog egluro hyn i chi ac mae'n rhaid ei fod yn chwilio am arfau neu eitemau y gellid eu defnyddio mewn cysylltiad â thrais neu derfysgaeth.

Nid yw bwa sgrinio (cyllyll) yn cyfrif fel stopio a chwilio. Ni ellir eich gorfodi i gerdded drwyddo, ond gallswyddog gymryd camau pellach neu hyd yn oed gynnal chwiliad llawn os gwrthodwch.

Nodwch y gall swyddog atafaelu sigarét neu alcohol a welir ganddo (hyd yn oed os yw mewn cynhwysydd) os ydych o dan oed. Nid stopio a chwilio yw hyn.

Pwy all eich 'stopio a chwilio'?

- Swyddog yr heddlu sy'n gwisgo lifrai os yw'r chwiliad yn ymwneud â therfysgaeth neu drosedd ddifrifol – os nad yw'n gwisgo lifrai, rhaid iddo ddangos ei gerdyn adnabod i chi; neu
- mae gan SCCH yr hawl i'ch chwilio mewn rhai sefyllfaoedd (mae'r rhain yn amrywio rhwng heddluoedd – gweler **www.apa.police.uk**) ond rhaid iddynt fod mewn lifrai. Os ydy'r chwiliad yn gysylltiedig â therfysgaeth rhaid i swyddog yr heddlu fod gyda hwy yn eu goruchwylio, a dim ond rhywbeth rydych yn ei gario y mae ganddynt hawl i'w chwilio.

Sut y dylid mynd ati i stopio a chwilio?

Cyn i chi gael eich chwilio, mae'n rhaid i'r swyddog gymryd pob cam rhesymol i sicrhau eich bod yn deall y canlynol:

- rhaid i chi aros i gael eich chwilio;
- pa gyfraith y mae'n ei defnyddio a'ch hawliau;
- ei enw a'i rif adnabod;
- yr orsaf y mae'n gweithio ynddi;
- pam y gwnaeth eich stopio;
- beth y mae'n chwilio amdano;
- eich hawl i gael derbynneb.

Gall y swyddog ofyn i chi dynnu mwy na chôt allanol, siaced neu fenig, ac unrhyw beth rydych yn ei wisgo am resymau crefyddol, fel sgarff wyneb, gorchudd neu dyrban, ond dim ond os gall fynd â chi i nywle allan o olwg y cyhoedd. Gallwch ofyn am i'r swyddog sy'n eich chwilio fod o'r un rhyw â chi.

Nid yw'n golygu eich bod yn cael eich arestio.

Yr hyn a gofnodir a'ch hawl i gael derbynneb

Os cewch eich chwilio mae gennych yr hawl i gael derbynneb ac mae'n rhaid i'r swyddog gofnodi'r manylion canlynol:

- eich enw neu ddisgrifiad ohonoch (dim ond os cewch eich chwilio);
- sut rydych yn disgrifio eich cefndir ethnig;

PARHAU AR YR OCHR ARALL ►

ACHOSION O STOPIO GAN YR HEDDLU

MYNNWCH WYBOD EICH HAWLIAU

Os cewch eich stopio gan yr heddlu, mae gennych hawliau

Cofiwch, os cewch eich stopio gan yr heddlu, mae gennych hawliau

Mae'n rhaid bod y swyddog sy'n eich stopio:

- yn eich trin ag urddas a pharch;
- yn rhoi'r rheswm i chi pam eich bod wedi cael eich stopio;
- yn rhoi ei fanylion i chi, gan gynnwys ei enw, ei rif heddlu a'i orsaf;
- yn rhoi copi i chi o'r ffurflen stopio/chwilio;

Mae gennych yr hawl i gwyno os nad ydych wedi cael eich trin yn deg.

I gael rhagor o wybodaeth fanwl, cyfieithiadau i ieithoedd amgen a fformatau gwahanol ewch i www.apa.police.uk neu cysylltwch â'ch awdurdod heddlu lleol.

Cymdeithas Awdurdodau'r Heddlu

Cyhoeddwyd gan yr APA © Hydref 2009

TORRWCH YMA · TORRWCH YMA · TORRWCH YMA

EICH AWDURDOD HEDDLU LLEOL YW

► PARHAD O'R OCHR ARALL

- pryd a ble y cawsoch eich stopio neu'ch chwilio;
- pam y cawsoch eich stopio neu'ch chwilio;
- os yw'n cymryd unrhyw gamau yn eich erbyn;
- enwau a/neu rifau'r swyddogion;
- os cawsoch eich chwilio, beth yr oedd yn chwilio amdano ac unrhyw beth a ganfuwyd ganddo.

Bydd y swyddog yn gofyn am eich enw, cyfeiriad a dyddiad geni. **Nid oes rhaid i chi roi'r manylion hyn oni bai eich bod yn cael eich arestio neu'n cael eich cofnodi am drosedd.**

Cewch dderbynneb ac mae'n bwysig eich bod yn ei chadw oherwydd bydd ei hangen arnoch os ydych am wneud cwyn neu weld cofnod llawn o'r stopio a'r chwilio ryw bryd arall.

Beth os ydych mewn cerbyd?

Gall swyddog stopio eich cerbyd ar unrhyw adeg ac efallai y bydd yn gofyn i chi ddangos eich dogfennau yrru.

Os ydych yn cael eich chwilio neu os gofynnir i chi rhoi cyfrif amdanoch eich hun, rhaid i chi gael derbynneb neu gofnod o hynny.

Beth y gallwch ei wneud os nad ydych yn fodlon ar y ffordd y cawsoch eich trin?

Dylai'r swyddog eich trin yn deg a chyda pharch. Os nad ydych yn fodlon ar y ffordd y cawsoch eich trin, gallwch gwyno. Os teimlwch y cawsoch eich trin yn wahanol oherwydd eich hil, oedran, cyfeiriadedd rhywiol, rhywedd, anabledd, crefydd neu ffydd, gallwch gwyno. Bydd o gymorth os cadwch y dderbynneb a roddodd yr heddlu i chi.

Gallwch gael cyngor ar sut i gwyno gan y canlynol:

- gorsaf heddlu;
- eich awdurdod heddlu lleol;
- Canolfan Cyngor ar Bopeth;
- Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu;
- y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol; neu
- gyfreithiwr.

Mae'r heddlu yn croesawu adborth am eich profiad - cysylltwch â'ch awdurdod heddlu lleol neu cwblhewch yr arolwg yn **www.apa.police.uk/policestops**

Cymdeithas Awdurdodau'r Heddlu

Cyhoeddwyd gan yr APA © Hydref 2009

ACHOSION O STOPIO GAN YR HEDDLU

MYNNWCH WYBOD EICH HAWLIAU